# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 14 a 21 Gorffennaf 2005

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

**Cynnwys**

Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

**Michael German:** Ar ba ddyddiad yr hysbyswyd y Prif Weinidog am benderfyniad y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth i gomisiynu ymchwiliad diwydrwydd dyladwy i Awdurdod Datblygu Cymru? (WAQ43735)

**Y Prif Weinidog (Rhodri Morgan):** Nid oes gennyf unrhyw beth i'w ychwanegu at y sylwadau a wneuthum ddydd Mawrth 5 Gorffennaf yn ystod cwestiynau'r Prif Weinidog am yr adolygiad hwn.

**Nick Bourne:** Faint yw cost y sioe deithiol i roi cyhoeddusrwydd i Lywodraeth Cynulliad Cymru a lansiwyd gan y Prif Weinidog yn ddiweddar? (WAQ43744)

**Y Prif Weinidog:** Cost rhaglen y sioe deithiol gyfredol yw £29,246, ac yn ychwanegol at hynny bu buddsoddiad cyfalaf o £39,160 am yr ôl-gerbyd ar gyfer y sioe deithiol, a fydd yn cael ei ailddefnyddio ar gyfer llawer o raglenni sioeau teithiol yn y dyfodol.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y grwp llywio ar addysgu ac arholi drama, yn dilyn adroddiad Clywch? (WAQ43754)

**Janet Ryder:** Gan gyfeirio at y grwp llywio ar addysgu ac arholi drama, yn dilyn adroddiad Clywch, a wnaiff y Gweinidog nodi: a) sawl gwaith y mae'r grwp wedi cyfarfod, b) pwy yw ei aelodau, c) pryd mae ei gyfarfod nesaf, ac ch) pa gynnydd a wnaed yng ngwaith y grwp? (WAQ43755)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae grwp llywio wedi cael ei sefydlu gyda chynrychiolwyr o'r adrannau addysg a'r awdurdodau rheoleiddio yng Nghymru, yr Alban, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae hyn yn unol ag argymhellion 21.12 a 21.13 y comisiynydd plant yn ei adroddiad Clywch. Gellir cyfethol cyrff eraill, gan gynnwys cyrff dyfarnu, i'r grwp llywio fel a phan fo hynny'n briodol.

Dyma aelodau'r grwp llywio:

| | |
|---|---|
| Richard Davies – Cadeirydd | Cyfarwyddwr, yr Adran Hyfforddiant ac Addysg, Llywodraeth Cynulliad Cymru |
| Keith Davies | Pennaeth yr Is-adran Safonau a Pherfformiad, yr Adran Hyfforddiant ac Addysg |
| Julian Pritchard | Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad, yr Adran Hyfforddiant ac Addysg |
| Jeremy Benson | Yr Adran Addysg a Sgiliau |
| Richard Kenny | Adran Gyflogaeth a Dysgu Gogledd Iwerddon |
| Angela Davidson | Adran Addysg Gweithrediaeth yr Alban |
| John V. Williams | Prif Weithredwr, Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru |
| Janice Charlton | Yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm |
| Charlie Penman | Awdurdod Cymwysterau'r Alban |
| Brendan McDowell | Cyngor Cwricwlwm, Arholiadau ac Asesu Gogledd Iwerddon |

Mae'r grwp wedi cwrdd bum gwaith, yn fwyaf diweddar ar 8 Gorffennaf. Mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ar 23 Medi 2005. Mae'r grwp wedi casglu ynghyd ac wedi adolygu'r dogfennau a'r canllawiau

perthnasol presennol ar draws y DU. Defnyddiwyd y canlyniadau i'w gynorthwyo i ystyried rôl cyrff dyfarnu o ran materion amddiffyn plant a'r angen am ganllawiau gan awdurdodau rheoleiddio.

Ym mis Mehefin, cymeradwyodd y grwp ddogfen ddrafft, 'Child Protection: Responsibilities and Exemplification for Awarding Bodies'. Erbyn diwedd y mis hwn, caiff y ddogfen hon ei rhyddhau gan Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru at ddibenion ymgynghori cychwynnol gydag Arolygiaeth Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru, sydd eisoes wedi cyfrannu at y gwaith drafftio, Estyn, CBAC, y Cyd-gyngor Cymwysterau a Phwyllgor Gwaith Ffederasiwn y Cyrff Dyfarnu. Bydd ACCAC hefyd yn ymgynghori'n ffurfiol â'i gyd-reoleiddwyr. Anfonir copi hefyd at y comisiynydd plant.

Yn amodol ar ganlyniad y broses hon, bydd ymgynghori ffurfiol â phartïon eraill cyfrannog, gan gynnwys pob un o'r 114 corff dyfarnu, cymdeithasau athrawon, ysgolion a cholegau yn cael ei lansio yn gynnar yn yr hydref. Mae'r adrannau addysg eraill a'r awdurdodau rheoleiddio yn ystyried sut y dylai'r canllawiau gael eu dosbarthu yn eu gwledydd hwy.

Yn dilyn canlyniad yr ymgynghoriad hwn, rhagwelir y caiff canllawiau terfynol eu cyflwyno i'r holl gyrff dyfarnu yn gynnar yn 2006.

Mae'r grwp llywio hefyd yn goruchwylio'r gwaith o baratoi canllawiau ar addysgu ac arholi drama. I gyd-fynd â hyn, cynullodd Llywodraeth Cynulliad Cymru seminar o arbenigwyr ym maes drama er mwyn cael mewnbwn arbenigol cychwynnol gan ymarferwyr i'r canllawiau ar addysgu drama, a'r celfyddydau mynegiannol, mewn ysgolion a cholegau.

Ym mis Mehefin, ystyriodd y grwp llywio ddrafft cychwynnol ond cynhwysfawr o'r canllawiau a baratowyd gan Estyn. Ystyriwyd drafft diwygiedig yn y cyfarfod ar 8 Gorffennaf. Bydd y canllawiau terfynol ar addysgu drama yn cael eu cyhoeddi mewn llai na 12 mis.

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog gyhoeddi'r dadansoddiad cost a budd a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar effaith cynnydd a ragwelir mewn cyflogau ar gyfer athrawon ar setliad Refeniw Llywodraeth Leol? (WAQ43756)

**Jane Davidson:** Nid yw cyflogau athrawon yn fater sydd wedi cael ei ddatganoli a'r Adran Addysg a Sgiliau sy'n gyfrifol am benderfyniadau dros Gymru a Lloegr. Caiff cyflogau athrawon yng Nghymru eu hariannu drwy'r setliad refeniw, yn yr un modd â chyllid arall i lywodraeth leol, felly nid oes swm wedi cael ei ddynodi ar wahân ar eu cyfer.

Fel rhan o'r broses o benderfynu pa bwysau o ran cyflogau a phrisiau oedd yn wynebu'r awdurdodau lleol yn 2005-06, amcangyfrifodd is-grwp gwariant Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y pwysau pellach a oedd yn deillio o gyflogau athrawon, ynghyd â'r holl bwysau eraill o ran cyflogau a phrisiau, a chafodd hyn ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu ar y setliad.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y defnydd posibl o finiau Dolav i leddfu problemau gyda’r cynllun stoc trig mewn rhannau o Gymru? (WAQ43745)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae’r Cwmni Cenedlaethol Stoc Trig yn gweithio gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, y gweinyddiaethau datganoledig a chynrychiolwyr y diwydiant i ddatblygu prosesau newydd o dan y cynllun cenedlaethol stoc trig. Un o’r mentrau sy’n cael ei harchwilio ar hyn o bryd yw defnyddio ‘swmp’ gasgliadau, sy’n cael eu hadnabod yn fwy cyffredin fel system ‘dolav’. Mae casglwyr yng Nghymru wedi mynegi diddordeb mewn treialu’r cynllun hwn yn ystod y tymor wyna nesaf. Yr arwyddion yw y bydd cyflwyno’r system hon yn gymorth mawr i gynnal casgliadau amserol yn ystod cyfnodau prysur yn y dyfodol.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog: a) gadarnhau y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn comisiynu archwiliad annibynnol o’r holl wasanaethau y tu allan i oriau yng Nghymru, b) manylu ar amserlen a chylch gorchwyl yr archwiliad hwn, c) nodi pwy fydd yn cynnal yr archwiliad hwn, ac ch) egluro a fydd yr archwiliad yn edrych ar gost cyflogau a delir i feddygon teulu am wasanaethau y tu allan i oriau? (WAQ43723)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Brian Gibbons):** Deallaf fod Swyddfa Archwilio Cymru wedi penderfynu adolygu’r contract gwasanaethau meddygol cyffredinol newydd yng Nghymru ac yr wyf yn croesawu hyn yn fawr. Mae’r gwaith i ddechrau yn hydref 2005. Mater i Swyddfa Archwilio Cymru yw cylch gorchwyl yr adolygiad hwn ond bydd yr adolygiad yn edrych ar y gwasanaethau newydd y tu allan i oriau.

**Jenny Randerson:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau ar gyfer darparu’r hyfforddiant y mae ei angen ar gyfer nyrsys sy’n gweithio mewn canolfannau galw i mewn? (WAQ43728)

**Brian Gibbons:** Nid oes gennym ganolfannau galw i mewn yng Nghymru, felly nid yw’r angen i hyfforddi nyrsys yn benodol ar gyfer y gwasanaeth hwn yn berthnasol. Fodd bynnag, o fewn GIG Cymru, yr ydym yn ymdrechu i ddarparu hyfforddiant priodol i bob nyrs fel bod nyrsys yn gallu cyflawni’r rolau gofynnol yn effeithiol ac yn gymwys.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

**Leanne Wood:** Faint o dai sy’n cael eu rhentu bob blwyddyn yn ardal Trefforest/Pontypridd? (WAQ43734)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Nid yw’r wybodaeth hon yn cael ei dal yn ganolog.